**<u>EITEM 6 – CWESTIWN</u>**

**(1) Cwestiwn y Cynghorydd Eurig Wyn –**

"Pa fudd cymunedol ariannol a gyflwynir i gymuned Waunfawr o ganlyniad i'r difrod a wnaed i'w hardal yn sgil datblygiadau FIRST HYDRO i sefydlu cynllun trydan dŵr yn eu hardal?"

**Ateb – Y Cynghorydd Dafydd Meurig, Aelod Cabinet Cynllunio –**

"O safbwynt y drefn gynllunio mae'r sefyllfa gyda budd cymunedol yn gwbl glir sef na ddylid ystyried cyfraniadau i gymunedau lleol wrth ddod i benderfyniad ar geisiadau cynllunio. Ni ddylid ychwaith ddefnyddio'r buddion cymunedol fel rheswm i ganiatáu ceisiadau, nad ydynt yn dderbyniol fel arall dan ystyriaethau cynllunio arferol.

Felly, mae darpariaeth o fudd cymunedol ariannol fel rhan o gynlluniau ynni adnewyddol yn rhywbeth sydd yn digwydd tu allan i'r drefn gynllunio. Fel arfer mae trefniant o'r fath yn un gwirfoddol rhwng y datblygwr a'r gymuned leol a hynny yng nghyd-destun datblygu a gweithredu cynlluniau sydd ar raddfa fawr mewn ardal.

Mae cynllun First Hydro sydd yn ymwneud a Gorsaf Bŵer Dinorwig yn gynllun sydd ar raddfa sylweddol, a fuasai wedi ei benderfynu gan Ysgrifennydd Gwladol Cymru ar ran Llywodraeth San Steffan ar y pryd. Gan gymryd fod y sefyllfa gynllunio pan adeiladwyd yr Orsaf yn ôl yn y saithdegau, o safbwynt budd cymunedol ariannol, yr un fath a'r sefyllfa gynllunio gyfredol, mae'n annhebygol y buasai buddion o'r fath wedi bod yn rhan o unrhyw ganiatâd cynllunio ar y pryd.

Nid ydym yn ymwybodol o fudd cymunedol ariannol penodol a roddwyd i gymuned Waunfawr yn sgil datblygu Gorsaf Bŵer Dinorwig. Er hyn, rhaid nodi bod y budd economaidd mae'r cynllun yma wedi ei ddarparu yn ystod y cyfnod adeiladu ac yn ystod y cyfnod gweithredu hyd heddiw, wedi bod yn sylweddol i'r ardal leol, sydd yn ei hun yn fudd i'r gymuned.

Hefyd, o edrych ar wefan cwmni First Hydro maent gyda pholisi cysylltiadau cymunedol sydd yn cefnogi a chynorthwyo gydag amrywiaeth o weithgareddau sydd o fudd i gymunedau, addysg, chwaraeon, y celfyddydau a'r amgylchedd yn yr ardal. Mae'r cwmni'n noddi neu gyfrannu at weithgareddau yn yr ardal ac wedi sefydlu trefniadau ar gyfer gweinyddu hyn."

**Cwestiwn atodol y Cynghorydd Eurig Wyn –**

“A gytuna’r Cyngor ymchwilio drwy’r Adran Gynllunio o ddatblygiadau cyffelyb yn yr Alban lle mae Cynghorau Sir a’r Senedd wedi creu strategaeth effeithiol i ariannu cynlluniau o’r fath a gofalu darparu budd-dal i’r cymunedau?”

**Ateb – Y Cynghorydd Dafydd Meurig, Aelod Cabinet Cynllunio –**

“Fel nodir yn yr ateb i’r cwestiwn uchod, nid yw budd cymunedol ariannol yn ystyriaeth gynllunio berthnasol wrth benderfynu ar geisiadau cynllunio, ond yn hytrach mae’n drefniant gwirfoddol sydd yn digwydd tu allan i’r drefn gynllunio. Hefyd, o edrych ar y trefniant sydd yn yr Alban mae canllawiau Llywodraeth yr Alban hefyd yn pwysleisio fod budd cymunedol ariannol yn drefniant gwirfoddol sydd yn hollol ar wahân i’r broses gynllunio.

Mae gwaith cychwynnol wedi ei wneud gan Swyddogion o’r Gwasanaeth Eiddo ac Adran Economi a Chymuned y Cyngor, i geisio sgopio buddiannau economaidd / cymunedol all fod ynghlwm a datblygiadau ynni adnewyddol. Mae’r gwaith wedi amlygu gwahaniaethau sylweddol o safbwynt y canllawiau sydd ar gael ynglŷn â budd cymunedol ar gyfer gwahanol fathau o ddatblygiadau ynni. Er enghraifft, gwelwyd fod gryn dipyn o wybodaeth ar gael ar gyfer datblygiadau ffermydd gwynt. Hefyd, yn ddiweddar gwelwyd newidiadau yn grantiau Llywodraeth Brydeinig ar gyfer hwyluso’r cynlluniau yma, a rhagwelir y bydd newid o’r fath yn debygol o effeithio ar hyfywdra achos busnes datblygiadau ynni i’r dyfodol.

Mewn sefyllfaoedd lle mae cynlluniau ynni adnewyddol ar dir lle mae’r Cyngor yn dirfeddiannwr (er enghraifft Glyn Rhonwy), bydd y Cyngor yn ystyried cyfleoedd i negodi buddion cymunedol fel rhan o drefniant ar gyfer trosglwyddo’r tir.”